

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2020

The A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Waiting) Order 2020

Gwnaed 25 Mehefin 2020

Made 25 June 2020

Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2020

Coming into force 1 July 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2020.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Waiting) Order 2020 and it comes into force on 1 July 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road at Llanrwst that extends from the centrepoin of its junction with Parry Road in a southeasterly direction to the centrepoin of its junction to Plas yn Dre;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy yn Llanrwst sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Pari i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Phlas yn Dre.

Gwahardd Aros ar unrhyw adeg

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal Dros Dro

5. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Cyfyngu ar Aros) 1996(2) wedi eu hatal dros dro ar y darn o’r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Mehefin 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 1 July 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition of Waiting at any time

3. No person may, during the works period, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the length of the trunk road.

Application

4. The prohibition in articles 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. The provisions of the A470 Trunk Road (Llanrwst, Gwynedd) (Restriction of Waiting) Order 1996(2) is suspended on the length of the trunk road during such times as the prohibition specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

25 June 2020

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(LLANRWST, CONWY) (GWAHARDD AROS
DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros ar unrhyw adeg dros dro ar y darn o'r gefnffordd yn Llanrwst sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Pari i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Phlas yn Dre.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2020 ac yn weithredol tan 23:59 o'r gloch ar 31 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST,
CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF
WAITING) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Llanrwst in the County Borough of Conwy.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit waiting at any time on the lengths of the trunk road at Llanrwst that extends from the centrepoint of its junction with Parry Road in a southeasterly direction to the centrepoint of its junction to Plas yn Dre.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 1 July 2020 and operate until 23:59 hours on 31 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government